

Job Description: Teaching Fellow

Faculty:	Medicine, Health and Life Science/Psychology
Department/Subject:	<i>Cymrawd Addysgu mewn Seicoleg</i>
Grade & Salary:	Grade 7, £34,610 - £38,784 per annum, pro rata), plus USS benefits.
Hours of work:	14 hours a week (0.4 FTE)
Number of positions:	Mae'r swydd ar gael ar sail 0.4 cyfwerth ag amser llawn (FTE). Fodd bynnag, rydym yn barod i benodi mwy nag un ymgeisydd ar sail ffracsiynol, hyd at gyfanswm cyfunol o 0.4 FTE, os bydd ymgeiswyr addas ar gael sy'n dymuno gweithio cyfran lai o amser.
Contract:	Mae hon yn swydd cyfnod penodol am wyth (8) mis, gan ddechrau ar 4 Ionawr 2027 a dod i ben ar 31 Awst 2027.
Location:	Bydd y swydd hon wedi'i lleoli ar Gampws Singleton.

Main Purpose of Post:	Mae hon yn swydd addysgu cyfnod penodol sy'n gofyn am gyfrannu at addysgu, gofal bugeiliol a chyfrifoldebau gweinyddol academiaidd eraill, gan gefnogi'r Athro Andrew Kemp. Mae'r meysydd addysgu i'w cynnwys yn cwmpasu darlithoedd israddedig ac ôl-raddedig (ar lefel MSc) ar amrywiaeth o bynciau, a all gynnwys dulliau ymchwil, llesiant, seicoleg yr hinsawdd a chymorth gyda goruchwyllo ymchwil. Mae'r rôl yn gofyn am ddarparu addysgu o ansawdd uchel ac ymrwymiad i wella profiad cyffredinol myfyrwyr. Byddai'r swydd hon yn addas i fyfyrwr PhD presennol neu rywun sydd wedi graddio'n ddiweddar. Mae Prifysgol Abertawe wedi ymrwmo i ddarparu'r safonau uchaf o addysgu a phrofiad myfyrwyr, ac mae rôl y Cymrawd Addysgu yn hanfodol i gyflawni'r ymrwymiad hwn. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn frwd dros addysg ac ymgysylltu â myfyrwyr, gydag ymrwymiad cryf i wella ansawdd addysgu a phrofiad ehangach myfyrwyr. Bydd yn cyfrannu at addysgu a dysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, diwtorialau grwpiau bach, seminarau, gweithdai a dosbarthiadau ymarferol. Gall y chyfrifoldebau hefyd gynnwys marcio gwaith myfyrwyr, datblygu a diweddarau deunyddiau addysgu, llunio a marcio asesiadau, darparu adborth amserol ac adeiladol, ymateb i ymholiadau gan fyfyrwyr, a chymryd rhan mewn cyfarfodydd â staff a myfyrwyr yn ôl yr angen. Yn ogystal, gall y Cymrawd Addysgu gyfrannu at recriwtio myfyrwyr, gweithgareddau allgymorth a mentrau eraill sydd â'r nod o gefnogi ymgysylltiad myfyrwyr a gwella profiad myfyrwyr. Dylai'r Cymrawd Addysgu fod ar gael i ddarparu addysgu a gweithgareddau eraill sy'n ymwneud yn uniongyrchol â myfyrwyr yn ystod oriau addysgu craidd y brifysgol. Efallai y bydd gofyn iddo hefyd gefnogi ffurfiau addysg anhraddodiadol, gweithgareddau recriwtio ac allgymorth, a allai o bryd i'w gilydd gynnwys gweithio gyda'r nos neu ar benwythnosau. Mae'r rôl hon yn canolbwyntio ar ddarparu addysg o ansawdd uchel, recriwtio myfyrwyr a gwella profiad myfyrwyr. O'r herwydd, ni ddisgwylir i ddeiliad y swydd ymgymryd ag ymchwil wreiddiol na gweithgarwch ysgolheigaidd, ac ni ddarperir amser ar gyfer hynny, y tu hwnt i'r hyn sy'n angenrheidiol i gyflawni chyfrifoldebau'r swydd.
General Duties	Bydd dyletswyddau cyffredinol y swydd yn cynnwys rhai neu bob un o'r canlynol, fel y bo'n briodol: 1. Darparu addysgu o ansawdd uchel ar draws ystod eang o ddeunydd craidd a deunydd arall sy'n berthnasol i'r ddisgyblaeth. 2. Datblygu deunyddiau addysgu a dysgu o ansawdd uchel eich hun, yn ôl yr angen. 3. Cyfrannu at ddatblygu a chyflwyno modiwlau a rhaglenni newydd a phresennol. 4. Llunio a marcio gwaith cwrs, arholiadau ac asesiadau eraill fel y bo'n briodol, gan ddarparu adborth ysgrifenedig a llafar effeithiol i fyfyrwyr. 5. Gweithredu fel Tiwtor Personol. 6. Cefnogi gweithgareddau sy'n gwella profiad cyffredinol myfyrwyr ac yn sicrhau deilliannau llwyddiannus i fyfyrwyr, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, arolygon profiad myfyrwyr, canlyniadau graddau, cadw myfyrwyr a'u cynnydd.

7. Cynorthwyo i ddatblygu sgiliau astudio myfyrwyr, gan nodi tueddiadau ymhlith carfannau ac anghenion unigol ac ymateb iddynt.
8. Goruchwyllo traethodau hir a/neu brosiectau myfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig ar raglenni a addysgir.
9. Cymryd rhan weithredol mewn diwrnodau agored a mentrau eraill i recriwtio myfyrwyr.
10. Cyfrannu at weithgareddau allgymorth y ddisgyblaeth.
11. Ymgymryd â dyletswyddau eraill sy'n ymwneud ag addysg a phrofiad myfyrwyr, fel y gellir yn rhesymol ofyn amdanynt.

Person Specification Criteria

1. Gradd israddedig o safon uchel (h.y. gradd Dosbarth Cyntaf neu Ail Ddosbarth Uwch, 2:1) mewn Seicoleg neu faes gwyddonol sydd â chysylltiad agos â'r ddisgyblaeth.
2. Cymhwyster ôl-raddedig o safon uchel (h.y. gradd Meistr gyda Rhagoriaeth), neu brofiad proffesiynol perthnasol cyfatebol.
3. Cymhwyster addysgu cydnabyddedig, neu ymrwymiad i ennill cymhwyster o'r fath (e.e. Tystysgrif Ôl-raddedig mewn Addysg Uwch).
4. Tystiolaeth o ddarparu addysgu rhagorol a phrofiad dysgu o ansawdd uchel i fyfyrwyr, gan gynnwys defnyddio Amgylcheddau Dysgu Rhithwir.
5. Sgiliau trefnu a rheoli amser rhagorol er mwyn cynllunio gweithgareddau o ddydd i ddydd, gyda gallu amlwg i fodloni terfynau amser heriol yn gyson.
6. Sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig a llafar rhagorol.
7. Sgiliau rhyngbersonol rhagorol, gan gynnwys y gallu i gyfathrebu'n effeithiol â myfyrwyr, athrawon, academyddion, busnesau a sefydliadau eraill.
8. Y gallu i weithio'n effeithiol fel aelod o'r staff addysgu ac i gyfrannu at raglenni addysgu mewn cydweithrediad â chydweithwyr.
9. Meddu ar wybodaeth arbenigol ddigon eang neu fanwl yn y ddisgyblaeth, a bod wrthi'n datblygu sgiliau a gwybodaeth bellach am ddulliau a thechnegau addysgu.
10. Tystiolaeth o'r gallu i addysgu neu oruchwyllo myfyrwyr yn llwyddiannus, gyda'r gallu i gyflawni sgoriau adborth modiwlau o ansawdd uchel, yn unol â'r disgwyliadau.
11. Y gallu i gyfleu gwybodaeth am y pwnc i gynulleidfaoedd academiaidd a myfyrwyr.
12. Ymrwymiad i amgylchedd dysgu sy'n canolbwyntio ar y myfyriwr.
13. Ymrwymiad i ddatblygiad proffesiynol parhaus.
14. Ymrwymiad i ddatblygiad proffesiynol parhaus ac i hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

Desirable Criteria

15. Gradd PhD mewn Seicoleg neu faes gwyddonol sydd â chysylltiad agos â'r ddisgyblaeth, neu fod ar fin cwblhau gradd PhD o'r fath.
16. Profiad blaenorol o gyflwyno cynnwys addysgu i fyfyrwyr israddedig a/neu fyfyrwyr MSc.
17. Profiad blaenorol o ddarparu tiwtora i fyfyrwyr israddedig.
18. Profiad blaenorol o asesu gwaith myfyrwyr israddedig.
19. Hanes o gyhoeddiadau mewn cyfnodolion a adolygir gan gymheiriaid a chyflwyniadau mewn cynadleddau academiaidd, sy'n gymesur â chyfnod gyrfa'r ymgeisydd.

Welsh Language:

Level 1 – 'a little' - pronounce Welsh words. Able to answer the phone in Welsh (good morning / afternoon). Able to use very basic every-day words and phrases (thank you, please etc.). Level 1 can be reached by completing a one-hour training course.



Swansea University
Prifysgol Abertawe

For more information about the Welsh Language Levels please refer to the Welsh Language Skills Assessment web page, which is available [here](#).

